# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Hannah Mefin**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 30 o Hydref 2025 am 19:00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Huw Jones

**1.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cynghorydd Catrin Wager

**Ymddiheuriadau –** Y Cynghorwyr: Dyfrig Jones, Michael Williams, Bleddyn Williams, Rheinallt Puw

**2. Ymweliad Zip World:**

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Cyngor gan Sean Taylor, sylfaenydd Zip World, gan nad oedd Andrew Hudson, Prif Swyddog Gweithredol, ar gael i fynychu'r cyfarfod.
Roedd Mr Taylor wedi rhoi hanes byr o sefydlu Zip World a nododd fod y cwmni yn cyflogi prentisiaid, contractau parhaol, a chontractau oriau sero. Cyfeiriodd at y Prosiect Swing, sydd newydd dderbyn caniatâd cynllunio, ac sydd yn anelu at leihau natur dymhorol y busnes a chynyddu masnach yn ystod y misoedd tawelach.
Trafodwyd natur contractau oriau sero, gan egluro na ellir cadw'r holl staff drwy gydol y flwyddyn oherwydd natur dymhorol y gwaith. Nodwyd bod deddfau cyflogaeth yn newid,

ac mae Zip World yn ystyried defnyddio oriau blynyddol i ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddosbarthu oriau gwaith drwy gydol y flwyddyn.
Cyfeiriodd Mr Taylor at y bwriad i gefnogi uwchraddio sgiliau pobl leol, yn enwedig pobl ifanc, a nododd y posibilrwydd o bartneriaeth rhwng Partneriaeth Ogwen a sefydliadau lleol fel Bro Ffestiniog. Mynegodd hefyd eu bwriad i gymryd rhan yn clwb ieuenctid Canolfan Cefnfaes.
Nodwyd bod y mwyafrif o'r staff yn dod o Brifysgol Bangor, Dyffryn Ogwen, ac ochrau Caernarfon (ar gyfer safle Chwarel Penrhyn).
Trafodwyd y prosiect e-bws, ac mynegodd y Cyngor ei siom nad aeth y prosiect ymlaen, gan fod 98% o ymwelwyr Zip World yn cyrraedd drwy gar, a'i bod wedi gallu helpu i leihau traffig rhwng safleoedd. Awgrymwyd y gellid ailystyried y prosiect a'i agor i'r cyhoedd er mwyn elw'r gymuned. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Zip World gyda'r sylwadau hyn.
Gofynnodd y Cyngor am ffigurau pendant ar lwybrau sgiliau, prentisiaethau, ac yn debyg, er gwaethaf pwyslais, ni roddwyd data penodol.
Cytunwyd gan yr holl bresennol bod angen gwell cyfathrebu a chyfathrebu cyson gan Zip World i'r gymuned leol, gan gynnwys y Cyngor Cymuned, i sicrhau gweledigaeth glir i'r dyfodol.

3. **Datgan Diddordeb: Dim**

4. **Materion Brys:** Atgoffodd y Cynghorydd Ann Williams bawb y bydd Sul y Cofio yn cael ei gynnal wrth y gofeb ar Sul, 9fed Tachwedd, am 10:50 y bore. Holodd y Cyngor a yw Partneriaeth Ogwen wedi prynu torch – bydd hyn yn cael ei gadarnhau. Cadarnhaodd y Cadeirydd, Catrin Wager, ei bod ar gael i fynychu**.**

5. **Cofnodion**
   Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 o Fedi 2025

6. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

**6.1 Biniau Newydd**- Cynghorydd Ann Williams yn ddiolch i Cynghorydd Einir Williams sydd wedi trefnu biniau sbwriel yn cae chwarae pont weun a Cae Chwarae Stryd Goronwy. Wedi trefnu i bin arall cael I sefydlu yn Gwernydd hefyd.

**6.2 Parcio Stryd Fawr –** Rhan fywaf o'r llinellau melyn wedi'i cwblhau. Y Clerc i ofyn am diweddariad ynghlyn a'r weddill.

**6.3 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig**

Mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo bod angen adolygu'r mater hwn ymhellach cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y brydles. Cytunwyd y dylai'r is-bwyllgor Eiddo / Trosglwyddo gyfarfod i drafod y brydles yn fanwl. Aelodau'r is-bwyllgor yma ydi:

***Eiddo/Trosglwyddo Asedau: C Wager, H V Jones, E Williams, B Williams a'r Cadeirydd***

Mae'r Clerc yn dal i aros am gadarnhad gan Gyngor Gwynedd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am faterion risg mewn perthynas â llwybrau eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Nodwyd bod Partneriaeth Ogwen yn barod ac yn hapus i gynorthwyo gyda'r asesiad risg ar gyfer y llwybr.

**5.4 Cysgodfan Bws Maes Bleddyn**

Nododd y Clerc ei bod wedi gwirio gyda'r cwmni sy'n cyflenwi'r gysgodfan, ac maent wedi cadarnhau y byddant yn parchu'r pris dyfynbris gwreiddiol, er ei fod bellach wedi dod i ben. Mae rhaid wario yr arian grant erbyn 31 Rhagfyr, felly bydd y prosiect yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl. Mae'r Clerc ar hyn o bryd yn ceisio dod o hyd i rywun i wneud y gwaith tir a gosod y gysgodfan cyn ei phrynu, er mwyn osgoi'r angen i'w storio.

**5.5 Is-bwyllgor Asedau**

Penderfynwyd y bydd y Clerc yn trosglwyddo'r holl wybodaeth berthnasol i'r Clerc newydd. Cytunwyd hefyd dylid trefnu adolygiad o werth asedau'r Cyngor, a bod y Clerc presennol yn anfon y daenlen berthnasol ymlaen i'r Clerc newydd.

**5.6 Maes Parcio Gerlan:**

Cynhaliwyd cyfarfod ar 7 Hydref rhwng y Clerc, y Cadeirydd, Donna Watts (Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen), Gareth Thomas o YGC, a thwrne y Cyngor Cymuned, Dewi Davies. Cadarnhawyd yn ystod y cyfarfod fod gennym hyd at Medi 2026 (ac nid Mai 2026) i ddechrau'r gwaith o leiaf. Cadarnhaodd Donna Watts y byddai'n cysylltu â pherchennog y tir ynghylch yr amodau a osodwyd ganddo – fel mynediad 24/7 drwy'r tir a'r angen am ffens atal da byw. Nodwyd ei fod yn hapus i ddileu pob amod ac eithrio'r gofyniad am ffens atal da byw, ac ei fod yn awyddus i weld y mater yn symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

**12. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2025'

Dim ohebiaeth o dan Materion Weithredol.

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| **Talai** | **Ffurf** | **Manylion** | **Swm** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | BACS | Gwasanaeth Clercio (Hydref-Ebrill) | **£28504.56** |
| Partneriaeth Ogwen | BACS | Costau Llyfrgell (Hydref-Ebrill) | **£3293.73** |
| Partneriaeth Ogwen | BACS | Costau Swyddog Cynnal (Hydref-Ebrill) | **£6240** |
| Cyngor Gwynedd | BACS | Toiledau Cyhoeddus | **£4000** |
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog Gofalwr | **£423.30** |
| YGC (Cyngor Gwynedd) | BACS | Corff Cymeradwyo SUDS ar gyfer Maes Parcio Gerlan | **£294.00** |

**14. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Ymweliad Zip World
- Y Clerc, Hannah Mefin yn gadael y swydd
- Croeso i'r Clerc newydd Sara Jones

**15. Unrhyw Mater Brys Arall**

**Dim**

**16. Cynllunio**

| Rhif Cais | Lleoliad | Disgrifiad | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| **C25/0328/13/RA** | Spar Stores, Stryd Fawr, Bethesda | Cais i ryddhau amod 3 (deunyddiau allanol) o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a | Amod(au) wedi rhyddhau yn llawn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | chodi estyniad tri llawr. | |
| **C25/0536/13/RA** | Former C L Jones Timber and Builders Merchants | Cais i ryddhau amod 4 (Cynllun Gwella Bioamrywiaeth) o ganiatâd cynllunio C25/0404/13/LL ar gyfer newid defnydd o "Sui Generis" i ddosbarth defnydd B8 "Storio a dosbarthu". | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn |
| **C23/0207/13/CR** | Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol | Ar y gweill |
| **C25/0422/13/LL** | 5 & 6 Llys Victoria, Stryd Fawr, Bethesda, Bangor, LL57 3AN | Gosod ffenestr gromen ar lethr de-orllewin y to | Caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0449/13/DT** | 2 Stryd Fer, Gerlan, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3SU | Dymchwel estyniad ystafell fwyta presennol a chodi estyniad newydd i'r eiddo presennol | Caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0531/13/LL** | Annecs, Tanygraig, Stryd Fawr, Bethesda, LL57 3AY | Newid defnydd anecs i lety gwyliau tymor byr (C6) | Ar y gweill |